Rhif: WG32852

Llywodraeth Cymru

# Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

## Crynodeb o'r Cais am Dystiolaeth a Phrosiectau

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2017

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78859-484-4

**Rhagair**

Rhwng mis Rhagfyr 2016 a Mawrth 2017 gwnaeth Llywodraeth Cymru Gais  am Dystiolaeth a Phrosiectau – cyfle i randdeiliaid i nodi tystiolaeth o bwysigrwydd cenedlaethol a chyflwyno prosiectau posibl i'w cynnwys yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Gofynnwyd i bobl i ddangos sut y gallai eu tystiolaeth neu brosiect gyfrannu tuag at gyrraedd y saith nod llesiant. Amgaeir templedi y ffurflenni ymateb yn Atodiad 1 er gwybodaeth.

Cawsom 78 o ymatebion - gan awdurdodau lleol, busnesau, cyrff cynrychiadol, y sector wirfoddol ac unigolion. Roedd yr ymatebion yn cynnwys tystiolaeth sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o faterion, ynghyd â a 227 o brosiectau ar gyfer trafnidiaeth ac ynni cynlluniau, aneddiadau newydd a mentrau adfywio mawr. Mae'r asesiad o'r holl ymatebion yn broses barhaus wrth inni symud ymlaen drwy gamau paratoi yr FFDC, gan ddechrau gyda'r materion a'r opsiynau gofodol

Mae manylion llawn pob cyflwyniad o dystiolaeth a phrosiectau ar gael ar wefan y FfDC.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canlyniadau cyfunol y Cais am Dystiolaeth a Phrosiectau, gan ddarparu gwybodaeth ar y math o gyflwyniadau a dderbyniwyd, ac oddi wrth pa randdeiliaid y daethant.


**Tystiolaeth**

*Dylech esbonio pam eich bod yn cyflwyno'r dystiolaeth i ni; pa fater cenedlaethol y mae'r dystiolaeth yn berthnasol iddo; a sut rydych yn credu y dylai'r dystiolaeth gael ei defnyddio i lunio'r FfDC newydd. Mae'n bwysig bod materion yn cael eu hesbonio'n glir. Dylech sicrhau bod eich tystiolaeth yn berthnasol i'r nodau llesiant, gan y byddwn yn ei hystyried o fewn eu cyd-destun.*

*Efallai y gellid mynd i'r afael yn well â thystiolaeth sy'n ymdrin â materion lleol neu ranbarthol mewn Cynllun Datblygu Strategol a/neu Cynllun Datblygu Lleol. Nid yw hyn yn golygu eu bod yn llai pwysig ond bod haen mwy addas yn system y cynllun datblygu i fynd i'r afael â hwy.*

O’r 78 o ymatebion i’r Cais am Dystiolaeth a phrosiectau, roedd tystiolaeth wedi’i gynnwys o fewn 67 o’r ymatebion. O fewn y 67 hynny, rydym wedi nodi 188 darn o dystiolaeth, sy’n ymdrin â amrywiaeth o faterion a phynciau’n ymwneud â thir, datblygu a chynllunio. Er hwylustod ac eglurder, mae'r rhain wedi'u grwpio o dan 12 categori, fel y dangosir isod yn Siart T1.

**T1 Cyflwyniadau o dystiolaeth yn ôl pwnc a fesul math o randdeiliaid**




## Prosiectau


*Mae prosiectau ar raddfa genedlaethol yn debygol o fod yn bwysig, naill ai o ran eu graddfa neu eu cyfraniad at gyflawni'r nodau cenedlaethol. Dylech ei gwneud yn glir pam y dylai'r prosiect gael ei ystyried ar gyfer ei gynnwys yn yr FfDC a'r cyfraniad y bydd yn ei wneud at wireddu'r nodau llesiant.*

Yn sgil y Cais am Dystiolaeth a Phrosiectau, derbyniwyd 227 o brosiectau arfaethedig, oddi wrth 44 o wahanol randdeiliaid. Mae'r rhain wedi ei categoreiddio i'r un grwpiau a'r dystiolaeth. Mae'r siartiau canlynol yn rhoi trosolwg o'r prosiectau a gyflwynwyd


**P1 Prosiectau fesul math**




**P2 Prosiectau arfaethedig, fesul y math o randdeiliaid**




**P3 Lleoliad y prosiectau: yn ôl Rhanbarth**



**P4 Lleoliad y Prosiectau: yn ôl Awdurdod Lleol**




**Beth fydd yn digwydd nesa'?**

Mae pob cyflwyniad a anfonwyd atom mewn ymateb i'r Cais am Dystiolaeth a Phrosiectau bellach yn rhan o'r sail dystiolaeth helaeth ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol a chan dynnu ar farn y cyhoedd drwy ein rhaglen ymgysylltu i ddatblygu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol cyntaf Cymru, erbyn 2020. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad ar y Prif Faterion ac Opsiynau i'r FfDC ym mis Ebrill 2018.